1907-2007

Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Datganiad i'r Wasg

Dydd Iau 31 Mai 2007

Cyfle i drafod materion addysg yng Nghaerffili

Bydd rhieni ac athrawon o ardal Caerffili yn cael cynnig cipolwg manwl ar sut y gall arolygu helpu i wella safonau addysg a hyfforddiant.

Mae Estyn, yr arolygiaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru, yn cynnal cyfarfod yng Ngwesty Golff a Gwledig Bryn Meadows, Maesycymmer, nos Lun 18 Mehefin.

Mae Estyn yn gwahodd rhieni ac athrawon i wneud cais am docynnau am ddim i fod yn bresennol. Bydd y cyfarfod yn cychwyn am 6.30pm, gyda lluniaeth ar gael o 6.00pm.

Bydd Susan Lewis, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, yn amlinellu canfyddiadau ei hadroddiad blynyddol ac yn sôn am sut mae angen i ysgolion yng Nghymru newid i ateb heriau'r 21ain ganrif. Bydd hefyd yn rhannu gwybodaeth am safonau addysg ym mwrdeistref sirol Caerffili.

Bydd panel Estyn, ynghyd â chynrychiolwyr o Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, yna'n ateb cwestiynau am faterion addysg a hyfforddiant.

Dywed Susan Lewis: "Mae'r cyfarfod yn gyfle i gael gwybod sut y gall arolygu wneud gwahaniaeth i ddysgwyr ac rwy'n edrych ymlaen at siarad â rhieni ac athrawon. Mae gan Estyn rôl bwysig yn sicrhau bod addysg a hyfforddiant o fudd i bob dysgwr, ac mae ein gwaith arolygu yn chwarae rhan allweddol wrth godi safonau ac ansawdd ledled Cymru."

Dylai rhieni a staff sy'n dymuno cymryd rhan wneud cais am docynnau i Estyn – gan roi eu henw, cyfeiriad ac enw'r ysgol – drwy ffonio 029 2044 6464 (oriau swyddfa) neu e-bost cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk.

Nodiadau i Olygyddion:

- Mae Estyn, swyddfa prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, yn cynnig gwasanaeth arolygu a chyngor ansawdd uchel.

- Mae Estyn yn arolygu ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion arbennig, unedau cyfeirio disgyblion, ysgolion annibynnol, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau cymorth ieuenctid, y system cyfiawnder ieuenctid, awdurdodau addysg lleol (AALlau), addysg a hyfforddiant athrawon, dysgu yn y gwaith, cwmnïau Gyrfa Cymru ac elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant rhaglenni'r Ganolfan Byd Gwaith.

- Mae copïau llawn o adroddiadau arolygu ar gael ar wefan Estyn yn www.estyn.gov.uk

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r:
Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk
02920 446464